Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Ken Skates AS, Comisiynydd y Senedd

Adrian Crompton, Archwilydd Cyffredinol Cymru

Dr Kathryn Chamberlain, Cadeirydd Bwrdd Archwilio Cymru

Michelle Morris, Ombwdsmon Gwasanaethau

18 Hydref 2023

Annwyl bawb,

Adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion: Diweddariad

Ysgrifennais atoch ar 4 Mai 2023 yn gwahodd sylwadau ar y Datganiad o Egwyddorion ('yr Egwyddorion'), yn ogystal ag ar brydlondeb y wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol sy'n hysbysu sut mae Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn mynd i'r afael â'u cynlluniau cyllidebol.

Gwnaethom ystyried eich ymatebion yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 6 Gorffennaf a 5 Hydref, ochr yn ochr ag ymateb gan y Gweinidog.

Cawsom ein calonogi gan eich cefnogaeth eang i'r Egwyddorion sy'n dangos eu bod yn parhau'n effeithiol, yn briodol ac yn berthnasol ac yn ddefnyddiol i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol wrth baratoi eu cynigion cyllideb flynyddol.

Fel Pwyllgor, rydym hefyd yn credu bod yr Egwyddorion yn hanfodol wrth sicrhau bod Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn cymryd ymagwedd gyson wrth baratoi eu cyllidebau. Yn benodol, maent yn ymgorffori ein barn bod unrhyw amcangyfrifon a gyflwynir yn dryloyw, yn ddarbodus ac yn adlewyrchu'r cyd-destun ehangach y mae Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn gweithredu ynddo ac nad ydynt wedi'u diogelu rhag pwysau ariannol a brofir gan sefydliadau mewn mannau eraill yn sector cyhoeddus Cymru.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Felly, nid ydym yn argyhoeddedig y dylid newid yr egwyddorion eu hunain. Eu cryfder yw darparu cyfeiriad lefel uchel i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, yn ogystal ag eglurder a chysondeb o ran disgwyliadau'r Pwyllgor Cyllid, ni waeth beth fo'r cyd-destun economaidd. Maent hefyd yn darparu sail i'r Pwyllgor gynnal ei rôl oruchwylio mewn perthynas â Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

Fodd bynnag, rydym wedi myfyrio ar y sylwadau a'r pryderon a wnaed ac wedi mynd i'r afael â hwy isod.

### Eglurder y sefyllfa ariannu yn y sector cyhoeddus

Nododd nifer o'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ansicrwydd a achoswyd gan amseriad digwyddiadau cyllidol y DU a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu gallu i gynllunio'n effeithiol, o ran cyllid ar gyfer yr amcangyfrifon ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf a gwaith cynllunio ariannol tymor canolig hefyd.

Mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr effaith y mae gohirio cyhoeddi cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru yn ei chael ar y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, o gofio bod angen cyhoeddi amcangyfrifon drafft cyn gosod cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru a'r anawsterau y gall hyn eu hachosi. Mae hyn yn arbennig o wir mewn blynyddoedd lle mae digwyddiad cyllidol y DU yn cael ei gynnal yn hwyr yn nhymor yr hydref, fel y bydd yn digwydd eto eleni.

Rydym hefyd yn nodi pryderon ynghylch y wybodaeth a ddarperir i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol gan y Gweinidog yn flynyddol i lywio gwaith cynllunio cyllidebol, yn enwedig nad yw'n cynnwys llawer o fanylion ac nad yw o fawr ddim defnydd ymarferol. Rydym yn cydnabod bod hyn yn ei gwneud hi'n anodd i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol fodloni'r gofyniad yn yr Egwyddorion y dylid gosod ceisiadau cyllideb yng nghyd-destun y sefyllfa ariannu hirdymor yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod bod y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi gohirio gosod cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru dros y pum mlynedd diwethaf oherwydd ansicrwydd ynghylch y cyllid sydd ar gael gan Lywodraeth y DU.

Fodd bynnag, er i'r Gweinidog ddweud wrthym y byddai'n parhau i ddarparu gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid i lywio gwaith cynllunio cyllidebau Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn y dyfodol, hoffem i'r Gweinidog ystyried darparu eglurder pellach. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Lywodraeth Cymru ystyried yr effaith y mae amseriad diweddarach ei chyllideb ddrafft yn ei chael ar y wybodaeth sydd ar gael i Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol gynllunio eu hamcangyfrifon. Gallai hyn gynnwys darparu ystod o newidiadau canrannol o amgylch y pwynt canol, fel yr awgrymwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol, a chrynodeb o risgiau a disgwyliadau o ran senarios ariannu yn dilyn unrhyw ddigwyddiad cyllidol dilynol yn yr hydref.

O ystyried amseriad digwyddiad cyllidol y DU eleni ac y bydd cyhoeddiad y Gyllideb Ddrafft yn cael ei ohirio eto eleni, rydym yn awyddus i archwilio yn ystod rownd y gyllideb eleni a yw'r

amserlenni ar gyfer cytuno ar gyllidebau ac amcangyfrifon y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, fel y nodir o dan Reolau Sefydlog a deddfwriaeth gysylltiedig, yn parhau i fod yn addas i'r diben.

## Annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru

Soniodd nifer o ymatebion y dylid cryfhau'r Egwyddorion i adlewyrchu statws penodol Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn ogystal â'r angen iddynt weithredu'n annibynnol oddi wrth y weithrediaeth gyda threfniadau cyllido ar wahân.

Er ein bod yn cydnabod statws penodol y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn llawn, yn ogystal â'r angen iddynt weithredu'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru, yn enwedig o ran gosod cyllideb a goruchwyliaeth, nid ydym yn argyhoeddedig o'r angen i gynnwys manylion ychwanegol yn yr Egwyddorion eu hunain. Yn hytrach, byddwn yn diweddaru tudalennau gwe y Pwyllgor i roi mwy o eglurder o ran cyllidebau'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol i adlewyrchu eu safbwyntiau unigryw, gan gynnwys egluro'r rhesymau pam mae ganddynt brosesau cyllido penodol.

## Newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ynghylch Cyllidebau Atodol

Roedd diffyg cefnogaeth gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar gyfer newidiadau ar raddfa fawr i'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer cyllidebau atodol. Fodd bynnag, mae profiadau diweddar ers i'r Pwyllgor gyhoeddi ei lythyr ymgynghori ym mis Mai wedi cwestiynu addasrwydd a chynaliadwyedd y gweithdrefnau hyn ac a ydynt yn adlewyrchu'n gywir statws cyfansoddiadol y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

Mae hyn yn ymwneud ag achosion lle mae ceisiadau am gyllid atodol wedi'u gwneud gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, er gwaethaf arwyddion clir gan Lywodraeth Cymru nad ydynt yn bwriadu cyflwyno cyllideb atodol i ryddhau cronfeydd o'r fath.

Yn benodol, er ei bod yn arfer sefydledig a derbyniol y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys unrhyw amrywiadau y gofynnir amdanynt gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn ei chynnig cyllideb atodol, nid yw'n ofyniad penodol i'r Rheolau Sefydlog. Felly, gofynnwn am ragor o safbwyntiau ar y mater hwn, gan gynnwys a oes angen cyflwyno newidiadau i ddileu unrhyw amwysedd yn y broses bresennol.

Er ein bod yn nodi barn yr Archwilydd Cyffredinol y dylid diwygio Rheolau Sefydlog i'w gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru hysbysu'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol o'i bwriad i gyflwyno unrhyw gynnig cyllideb atodol, credwn na fyddai gwneud hynny'n gymesur. Serch hynny, rydym yn cydnabod yr anawsterau ymarferol a achosir i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol pan nad yw union amseriadau cyllidebau atodol Llywodraeth Cymru yn hysbys. Dyna pam rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn iddi ddarparu manylion yn rhagweithiol am unrhyw gyllidebau atodol y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu eu cyflwyno i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, cyn gynted ag y cytunir ar y dyddiadau perthnasol.

Hoffem ddiolch ichi am ddarparu sylwadau adeiladol mewn ymateb i'r adolygiad hwn. Rydym yn falch bod yr Egwyddorion yn parhau i fod yn addas at y diben ac yn parhau i fod yn rhan annatod o'r broses o bennu'r gyllideb. Fodd bynnag, byddem yn gwerthfawrogi eich ystyriaeth bellach o'r materion sy'n ymwneud â gweithdrefnau cyllideb atodol y Senedd, fel yr amlinellir uchod.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.